



Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir



St Non's i Borth Clais

Crwydr Hamddenol ar hyd Llwybr yr Arfordir

Parcio: St Non's (SM753243) Porth Clais (SM741243)

Hyd: 1.2 milltir (2.0 km) bob ffordd

Gradd: Gweddol wastad, rhai llethrau cymedrol; dau lethr serth o 1 mewn 8

Arwyneb: Glaswellt a llwch/mwd tenau pan yn wlyb

Toiledau: Canolfan Groeso Tyddewi (tŷ bach i'r anabl yn agor gydag allwedd RADAR) Porth Clais wrth ymyl y maes parcio

Ffôn: Canolfan Groeso Tyddewi

O'r maes parcio yn St Non's, y llwybr mwyaf hamddenol at Lwybr yr Arfordir yw'r llwybr i lawr o'ch blaen tuag at giât mochyn metel. Mae'r llethr yn dechrau yn weddol serth, 1 mewn 8 am 16m, ac yna'n dod yn 1 mewn 23. Mae'r arwyneb yn laswellt a cherrig mân gweddol wastad. Ar ôl y giât mochyn, mae yna ris 9" i lawr ac mae yna gerrig cobl ar y llwybr.

O'ch blaen, mae'r ffynnon gysegredig. Roedd y d_r yn enwog am ei b_erau iachusol. I'r dde, mae yna giât mochyn arall a gris i lawr sy'n arwain ar draws y cae at olion y capel. Ewch yn ôl at y ffynnon a pharhewch i fyny tri gris 9" arall ar lethr hamddenol ac mae yna gerrig cobl am 14m arall. Parhewch ar hyd y llwybr glaswelltog ac yna trowch i'r dde i ymuno â Llwybr yr Arfordir i lawr llethr sy'n 1 mewn 9 am 18m. Os ydyw hyn yn rhy serth, ewch tuag at giât mochyn ac yna trowch yn ôl at Lwybr yr Arfordir.

O'r rhwystr, mae yna lethr serth sy'n 1 mewn 8 am 90m. Mae yna lethr llai, sy'n 1 mewn 13, ac sy'n arwain i fyny at sticil carreg. Croeswch hwn ac yna ewch yn ôl at olion y capel, neu ewch ar hyd Llwybr yr Arfordir sy'n dilyn clawdd draddodiadol. Yma, symudwyd Llwybr yr Arfordir tuag at y tir oherwydd natur ansefydlog y clogwyni sy'n erydi'n gyflym.

Wrth edrych yn ôl ar yr hen glogwyni jasper a thywodfaen coch, mae'r plygiadau a'r ffawtiau yn creu golygfeydd bendigedig. Yn y Gwanwyn ac yn gynnar yn yr Haf, mae'r cloddiau yn gyfoeth o flodau gwyllt fel gludlys arfor a chlustog Fair.

Ymhellach ar hyd y llwybr, mae'r arwyneb yn dod yn fwy garw ac anwastad mewn mannau oherwydd y creigwely sy'n ymwithio allan. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr i edrych allan dros harbwr bach tlws Porth Clais. Mae'r llethr i lawr i faes parcio Porth Clais yn serth iawn ac yn arw. Ewch yn ôl yr un ffordd ag y daethoch gyda golygfeydd gwych o'r dirwedd hyfryd.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

